WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1017A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Dave Thomas, Ann-Marie Harkin, Carol Moseley a Jason Blewitt.

# Adroddiad cryno


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn i nodi ei fod wedi methu â chyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 8

Mae'r Bwrdd newydd yn gwella ei drefniadau llywodraethu ac arwain, ond mae angen gwneud mwy o waith i wella trefniadau llywodraethu ansawdd a gwaith system gyfan 8

Wrth weithio i gynllun blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos uchelgais o ran datblygu ei gynllun strategol tymor hwy, ond bydd angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti i wneud y newid angenrheidiol 11

Mae yna arwyddion bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli ei adnoddau yn fwy strategol, gyda dull seiliedig ar werthoedd sy'n esblygu, ond mae heriau mewn perthynas â chyllid, perfformiad ac effeithlonrwydd yn bodoli o hyd, gyda gwaith rheoli'r gweithlu ac asedau yn cyflwyno risgiau allweddol 12

Mae fy rhaglen waith ehangach wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rhai trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, darbodusrwydd ac effeithiolrwydd 14

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd da ar y cyfan o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau 16

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi archwilio 18

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol sylweddol 19

# Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Ionawr 2019. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

9 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

10 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i nodi ei fod wedi methu â mantoli'r gyllideb ac wedi methu â sicrhau bod cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad:

- bod y Bwrdd newydd yn gwella ei drefniadau llywodraethu ac arwain, ond bod angen gwneud mwy o waith i wella trefniadau llywodraethu ansawdd a gwaith system gyfan.
- wrth weithio i gynllun blynyddol, bod y Bwrdd Iechyd yn dangos uchelgais o ran datblygu ei gynllun strategol tymor hwy, ond y bydd angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti i wneud y newid angenrheidiol.
- bod yna arwyddion bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli ei adnoddau yn fwy strategol, gyda dull seiliedig ar werthoedd sy'n esblygu, ond bod heriau mewn perthynas â chyllid, perfformiad ac effeithlonrwydd yn bodoli o hyd, gyda gwaith rheoli'r gweithlu ac asedau yn cyflwyno risgiau allweddol.

12 Mae fy rhaglen waith ehangach wedi cynnwys adolygiadau o ofal sylfaenol a'r gronfa gofal integredig a'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol. Daeth y gwaith hwn o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rhai trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, darbodusrwydd ac effeithiolrwydd:

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi gwneud defnydd da ar y cyfan o'r data a ryddhawyd yn 2017.

14 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

16 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

17 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon.

18 Derbyniais y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiadau terfyn rhagnodedig ac roedd y papurau gwaith ategol o ansawdd da.

19 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

20 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Gwnaed sawl addasiad i'r cyfrifon drafft a oedd yn ymwneud yn bennaf â naratif ychwanegol i ddarparu mwy o eglurder. |
| Materion sylweddol eraill | Cyhoeddais farn ddiamod ac adroddiad o sylwedd gan na lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2017-18. |

21 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol gyfatebol yn cyd-fynd â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2018 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

22 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau, a chyhoeddais farn ddiamod ar y cyfrifon ym mis Rhagfyr 2018.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi gosod adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn i nodi ei fod wedi methu â chyflawni ei dyletswyddau ariannol statudol

Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

23 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd gyd-fynd â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo'r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau incwm neu wariant perthnasol nad oes gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i'w derbyn neu eu gwneud.

24 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb, mae ei wariant yn uwch na'i bwerau i wario, felly mae'n rhaid i mi gyhoeddi barn ddiamod. Yn 2017-18, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg diwedd blwyddyn o £32.417 miliwn. Yn ogystal, torrodd y Bwrdd Iechyd ei derfyn adnoddau trwy wario £71.647 miliwn yn fwy na'r £3,186 yr awdurdodwyd iddo wario yn y cyfnod tair blynedd o 2015-16 tan 2017-18.

### Ochr yn ochr â’m barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i nodi ei fod wedi methu â mantoli’r gyllideb ac wedi methu â sicrhau bod cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith

25 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â’m barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â mantoli’r gyllideb, rhoddais adroddiad o sylwedd yn amlinellu’r manylion ffeithiol: methodd â mantoli’r gyllideb (fel yr amlinellir uchod) ac nid oes ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

26 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol;
- archwilio’r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael y Bwrdd Iechyd;
- y defnydd penodol o adnoddau mewn perthynas â gwasanaethau Gofal Sylfaenol a gwaith partneriaeth rhanbarthol;
- adolygu trefniadau’r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu’r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o’r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

27 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi’u hamlinellu isod.

## Mae’r Bwrdd newydd yn gwella ei drefniadau llywodraethu ac arwain, ond mae angen gwneud mwy o waith i wella trefniadau llywodraethu ansawdd a gwaith system gyfan

28 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu’r Bwrdd Iechyd, y ffordd mae’r Bwrdd a’i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes ac i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae’r Bwrdd a’i bwyllgorau yn ei derbyn i’w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i’r casgliadau canlynol.

29 **Mae'r Bwrdd newydd yn dechrau sefydlu ei hun fel tîm cydlynus ac, er bod trefniadau i gefnogi effeithiolrwydd y bwrdd a'i bwyllgorau yn dda ar y cyfan, mae angen gwella trefniadau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.** Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod rhaglen ddatblygu â ffocws yn helpu i greu Bwrdd effeithiol yn sgil newidiadau sylweddol i aelodaeth y Bwrdd. Mae egni newydd ac ymdeimlad o uchelgais yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn fwy agored wrth ystyried materion ac yn fwy realistig ynghylch yr heriau i esgyn cyllid a pherfformiad i'r lefel angenrheidiol. Mae'r Bwrdd wedi adolygu strwythur ac aelodaeth ei bwyllgorau, a gwelais lif da o sicrwydd a chraffu yn y Pwyllgorau Archwilio a Pherfformiad a Chyllid. Mae gwaith i ail-fframio ffocws Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi symud ymlaen yn gadarnhaol, er bod angen cryfhau agweddau ar weithrediad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Q&S). Mae penodiadau sylweddol i'r swyddi Cyfarwyddwr Nyrsio a Meddygol wedi dod â sefydlogrwydd i lywio a chefnogi gwaith y Pwyllgor hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio hefyd i gydbwyso cynllun gwaith y Pwyllgor, gwella'r gwaith o reoli agendâu a sicrhau dull seiliedig ar risg cryfach i adrodd a chraffu ar sicrwydd.

30 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd wedi ei ddylunio yn seiliedig ar y prif risgiau i amcanion strategol, ynghyd â diweddaru'r gofrestr risg gorfforaethol a gwella trefniadau rheoli risg.** Mae systemau risg a sicrwydd wedi bod ar waith tra bod Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) newydd yn cael ei ddatblygu. Mae dyluniad y BAF yn seiliedig ar brif risgiau i gyflawni amcanion sefydliadol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio dull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny systematig i ddatblygu'r BAF, ochr yn ochr â gweddnewid ei drefniadau rheoli risg a'i gofrestri risg. Disgwylir y bydd y BAF newydd, wedi'i boblogi'n llawn, a'r gofrestr risg gorfforaethol (CRR) ar ei newydd wedd ar waith yn gynnar yn 2019. Bydd pwyllgorau'r Bwrdd yn derbyn y rhannau perthnasol o'r BAF a'r CRR yn chwarterol ar gyfer goruchwylio a chraffu.

31 **Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan, ond nid yw archwiliad clinigol na'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch wedi cyfrannu'n llawn at y system sicrwydd hyd yma**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei Reolau Sefydlog a'i Gynllun Dirprwyo. Mae ganddo hefyd raglen waith â ffocws ar gyfer Archwiliad Mewnol a'r Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol. Mae adroddiadau perfformiad integredig yn ddigonol ar y cyfan i lywio gwaith craffu'r Bwrdd, ac mae trefniadau penderfynu a rheoli perfformiad gweithredol ar waith. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r fframwaith rheoli perfformiad y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu mynd i'r afael ag ef ochr yn ochr â datblygu model gweithredu sefydliadol yn 2019. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn gwybodaeth am ansawdd a phrofiad cleifion trwy amryw o adroddiadau, gan gynnwys sicrwydd gan y Fforwm Ansawdd a Diogelwch dan arweiniad staff gweithredol. Fodd bynnag, mae yna risgiau o ddyblygu a bylchau yn yr adroddiadau presennol i'r Pwyllgor, ac mae gwaith i symleiddio adroddiadau'r is-grwpiau i'r Fforwm yn parhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu'r adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ochr yn ochr â'i adolygiad o gylch gorchwyl y Fforwm. Mae'n cydnabod hefyd y gallai archwiliad

clinigol lleol gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i ddarparu sicrwydd allweddol mewn perthynas ag ansawdd a risgiau.

32 Mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth (IG), deuthum i'r casgliad bod strategaeth IG y Bwrdd Iechyd yn cael ei gefnogi gan bolisïau perthnasol, trefniadau rheoli risg, hyfforddiant a rhaglenni archwilio. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio dull rhagweithiol i baratoi ac ymateb i ofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac mae'n cymryd camau i liniaru'r risgiau a gyflwynir gan fygythiadau seiberddiogelwch. Mae yna Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth (IGB) sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer sbarduno'r agenda IG. Fodd bynnag, efallai na fydd ei ffocws yn ddigon strategol i gefnogi uchelgais digidol ehangach y Bwrdd Iechyd yn llawn yn y tymor hwy.

33 **Gydag arweinyddiaeth gryfach, mae'r sylw bellach ar adeiladu gwaith system gyfan mwy effeithiol ac atebolrwydd clir ar draws y sefydliad, ond mae'r newid arfaethedig i ffiniau yn ymestyn y capasiti yn y tymor byr.** Mae penodiadau sylweddol i'r swyddi Cyfarwyddwr Meddygol, Nyrsio a Gweithlu eleni wedi cryfhau'r tîm gweithredol yn sylweddol. Mae'r Prif Weithredwr wedi adolygu portffolios gweithredol i gydbwyso cyfrifoldebau gweithredol, ac mae'r cynllun portffolio diwygiedig yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Daeth fy ngwaith eleni i'r casgliad bod dull uwch dîm rheoli cryfach yn datblygu rhwng staff gweithredol a thimau rheoli triwriaeth uned, er bod amryw o faterion yn dal i amharu ar gwaith system gyfan effeithiol ar draws y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Trawsnewid i arwain rhaglen trawsnewid sefydliadol i sicrhau bod yr holl raglenni newid a'r ymdrech yn y sefydliad yn cyfateb i'w gilydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i symud o'r sefyllfa bresennol o raglenni lluosog a datblygu atebolrwydd a chysylltiadau clir ar draws strwythur y sefydliad. Er bod paratoadau ar gyfer newid ffin Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio llawer o gapasiti ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu ei gynlluniau trawsnewid, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd.

34 **Mae gan y Bwrdd Iechyd system sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gyfer olrhain argymhellion archwilio mewnol ac allanol.** Mae gan y Bwrdd Iechyd system sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gyfer olrhain argymhellion archwilio mewnol ac allanol. Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn amlygu cynnydd ac yn dangos faint o amser mae camau'n ei gymryd i fynd i'r afael ag argymhellion. Mae'r wybodaeth hon yn llywio gwaith y Pwyllgor o ran craffu ar swyddogion a'u dwyn i gyfrif mewn perthynas â chynnydd a chyflymder. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn canfyddiadau o arolygiadau, adolygiadau ac archwiliadau clinigol ac ansawdd, ond nid oes ganddo system olrhain i fonitro cynnydd yn erbyn unrhyw gamau gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymestyn ei drefniadau olrhain i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Mae fy adolygiad asesu strwythuredig eleni yn nodi amryw o feysydd lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn fy argymhellion blaenorol, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd cyn i'r camau hyn gael eu cwblhau yn llawn. Rwy'n trafod hyn ymhellach ym mharagraffau 48 a 49.

## Wrth weithio i gynllun blynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos uchelgais o ran datblygu ei gynllun strategol tymor hwy, ond bydd angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti i wneud y newid angenrheidiol

35 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad ac yn cynllunio ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei amcanion ac a oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro cynnydd o ran darparu ei gynlluniau. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

36 **Mae'r Bwrdd yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer y sefydliad ac yn dangos ymrwymiad ac uchelgais o ran datblygu ei strategaeth tymor hir a'i gynllun gwasanaethau clinigol.** Yn ystod 2018, mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer y sefydliad, wedi'i mynegi trwy strategaeth sefydliadol 10 mlynedd (y strategaeth) a'i chefnogi gan gynllun gwasanaethau clinigol (CSP) pum mlynedd. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth ddrafft ym mis Tachwedd 2018, sy'n amlinellu nodau strategol ac amcanion galluogi'r Bwrdd Iechyd. Mae datblygiad y Cynllun Gwasanaethau Clinigol (CSP) wedi mynd rhagddo ochr yn ochr â datblygiad y strategaeth i sicrhau cydlyniad ac aliniad. Mae'r gwaith wedi cyflwyno tasg heriol o ran amserlenni, cymhlethdod a chapasiti sefydliadol. Mae Capita wedi darparu capasiti ac arbenigedd, yn enwedig ar gyfer modelu'r galw am wasanaethau, ac mae'r gwaith wedi ystyried darpariaeth gwasanaethau rhanbarthol a goblygiadau'r newid i ffin Pen-y-bont ar Ogwr a wneir ym mis Ebrill 2019. Mae datblygiad y CSP wedi'i sbarduno trwy grwpiau ail-ddylunio clinigol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid statudol ar ei strategaeth a'i CSP. Bydd y CSP drafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2019.

37 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gynhyrchu cynllun tymor canolig integredig y gellir ei gymeradwyo ar gyfer 2019-2022.** Am y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu â chynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) tair blynedd sy'n mantoli'r gyllideb, ac mae wedi gweithio i gynlluniau gweithredu blynyddol (AOPs). Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu ei AOP ar gyfer 2019-20 ac IMTP ar gyfer 2019-2022 a ystyrir fel y llwybr ar gyfer rhoi tair blynedd gyntaf y strategaeth sefydliadol a'r cynllun gwasanaethau clinigol ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi alinio'r amserlen a'r prosesau cynllunio ar gyfer pob un, ac mae'r fframwaith cynllunio cyffredinol yn ymddangos yn rhesymol. Mae bwriadau comisiynu wedi'u hamlinellu, ac mae cynllun ariannol tymor hwy sy'n canolbwyntio mwy ar gynaliadwyedd a thrawsnewid yn dod i'r fei. Mae gwaith cynllunio'r gweithlu wedi derbyn mwy o gefnogaeth eleni ond, yn y tymor hir, bydd angen cyflawni'r gwaith o ail-ddylunio'r gweithlu yn fwy cyflym. Bydd y Bwrdd yn derbyn AOP 2019-20 i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2019, ynghyd â'r naratif ar gyfer yr IMTP y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn ddiweddarach yn 2019. Bydd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr IMTP

yn ystod 2019-20 yn dibynnu ar a yw'r cynllun tair blynedd yn mantoli'r gyllideb ac yn hyfyw o ran y perfformiad gofynnol.

38 **Mae darpariaeth y cynllun blynyddol yn cael ei fonitro'n dda, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu mesurau ar gyfer cynlluniau tymor hwy newydd, ond mae sicrhau'r capasiti i gyflawni newid sylweddol yn cyflwyno her**. Mae darpariaeth yn erbyn yr AOP yn destun gwaith craffu ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Mae mesurau perfformiad allweddol sy'n berthnasol i'r AOP wedi'u cynnwys yn yr adroddiad perfformiad integredig. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol yn seiliedig ar sgôr Coch/Ambr/Gwyrdd i nodi a yw'r gwaith o gyflawni pob cam gweithredu ar y trywydd iawn. Mae adolygiadau perfformiad gweithredol rheolaidd dan arweiniad staff gweithredol yn ystyried perfformiad yn erbyn y cynllun blynyddol hefyd. Gyda'r newid i strategaeth 10 mlynedd, cynllun gwasanaethau clinigol pum mlynedd ac IMTP tair blynedd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod modd mesur cynnydd yn erbyn cynlluniau yn erbyn cerrig milltir clir a bod y wybodaeth a gyflwynir yn diwallu anghenion y Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnwys y mesurau canlyniadau ar gyfer darparu'r strategaeth yn ei gynllun tair blynedd, ac mae'n ymwybodol y bydd angen iddo ddiffinio'r portffolio o raglenni newid, llwybrau critigol a'r mesurau llwyddiant ar gyfer darparu'r cynllun gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae'r capasiti i reoli rhaglenni a newid i gefnogi cynlluniau strategol a newid gwasanaeth yn cyflwyno her o hyd.

## Mae yna arwyddion bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli ei adnoddau yn fwy strategol, gyda dull seiliedig ar werthoedd sy'n esblygu, ond mae heriau mewn perthynas â chyllid, perfformiad ac effeithlonrwydd yn bodoli o hyd, gyda gwaith rheoli'r gweithlu ac asedau yn cyflwyno risgiau allweddol

39 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei arian a'i asedau ffisegol eraill i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

40 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau sylweddol i'r gweithlu, ond mae'n gwneud cynnydd er gwaethaf rhai heriau parhaus.** Mae tîm y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (WFOD) wedi dod yn fwyfwy sefydlog ers penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'r gwaith o sefydlu Fforwm WFOD yn cefnogi rheolaeth weithredol fwy systematig a goruchwylio materion y gweithlu a datblygu sefydliadol. Mae gwaith y Cyfarwyddwr o ran nodi'r risgiau i'r gweithlu wedi nodi amryw o risgiau a heriau sylweddol, gan gynnwys materion yn ymwneud â chysylltiadau gweithwyr cyflogedig a diwylliant sefydliadol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi camau ar waith ac yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â materion, gydag adnoddau tymor byr ychwanegol ar gael ar gyfer gwaith gwella

allweddol. Daeth fy ngwaith o hyd i dystiolaeth bod perfformiad y gweithlu yn gwella mewn mesurau allweddol megis: absenoldeb salwch; trosiant staff; arfarniadau; a chyfraddau hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, mae capasiti'r tîm WFOD yn ymddangos yn gul ac mae'r gwaith o drosglwyddo staff i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, fel rhan o newidiadau i ffiniau ym mis Ebrill 2019, yn gosod gofynion sylweddol ar y tîm ar hyn o bryd.

41 **Mae'n ymddangos bod y defnydd o adnoddau ariannol yn symud i gyfeiriad cadarnhaol, gyda gwaith rheoli a chraffu cryfach, ond mae heriau sylweddol yn bodoli o hyd.** Nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £32 miliwn yn 2017-18 (paragraff 24). Ar gyfer 2018-19, rhagwelodd ddiffyg o £25 miliwn i gychwyn, ond mae wedi bod yn gweithio i sicrhau cyfanswm diffyg rheoli o £20 miliwn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Rhagfyr 2018, derbyniodd y Bwrdd Iechyd £10 miliwn ychwanegol o gyllid anghylchol gan Lywodraeth Cymru ac, erbyn hyn, mae'n rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £10 miliwn. Mae fy ngwaith cyfrifon blynyddol wedi nodi'n gyson bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cyllidebol, rheolaeth ariannol a rheoli digonol. Fodd bynnag, mae gorwario hanesyddol yn awgrymu nad oes digon o atebolrwydd ariannol.

42 Mae fy ngwaith eleni wedi dod ar draws gwell stiwardiaeth ariannol, mwy o ffocws ar berchnogaeth gweithredol cyllidebau a gwaith monitro a chraffu cryfach. Mae'r defnydd o ddata costio a meincnodi yn datblygu, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio datblygu arbedion mwy cynaliadwy trwy ei ffrydiau gwaith adfer a chynaliadwyedd. Roedd y ffrwd waith caffael seiliedig ar werth wedi cyflawni £1.2 miliwn o arbedion erbyn diwedd mis Tachwedd 2018, yn erbyn cynllun o £941,000 a tharged blynyddol o £2 filiwn. Mae ffrydiau gwaith eraill wedi bod yn araf i gyflawni, gan arwain at ddibyniaeth barhaus ar arbedion anghylchol a mesurau lliniarol eraill. Fodd bynnag, dylai'r ffrydiau gwaith hyn fod yn cyfrannu at arbedion cylchol yn 2019-20. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu strategaeth ariannol tymor hwy i'w chynnwys yn ei IMTP ar gyfer 2019-22, gyda ffocws bwriedig ar gynaliadwyedd a thrawsnewid ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, adeg fy ngwaith archwilio, nid oedd y strategaeth hon wedi'i chymeradwyo na'i chwblhau.

43 **Mae perfformiad wedi gwella mewn rhai meysydd allweddol, ond mae gofal heb ei drefnu yn dal i fod yn her ac mae angen canolbwyntio mwy ar effeithlonrwydd a rhoi dull seiliedig ar werthoedd ar waith.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei ffocws ar wella perfformiad sefydliadol, yn enwedig yn y pum maes sy'n gysylltiedig ag ymyrraeth a dargedir. Mae gofal heb ei drefnu yn dal i fod yn her, er bod metrigau yn dangos gwelliant yn y pedwar maes ymyrraeth a dargedir arall: amseroedd aros o atgyfeirio i driniaeth (RTT): amseroedd aros ar gyfer triniaeth canser: strôc: heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hefyd yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd, ac mae ganddo sawl ffrwd waith i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gymysg, er enghraifft, gyda mwy a mwy o weithdrefnau achosion dydd yn cael eu cyflawni, ond lle i wella'r defnydd cyffredinol o theatrau. Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus a seiliedig ar werthoedd wedi'u hadlewyrchu yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd, ac mae ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn safle

peilot ar gyfer rhoi egwyddorion seiliedig ar werthoedd ar waith. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid i ddatblygu seilwaith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe. Mae hyn yn darparu llwyfan i'r Bwrdd Iechyd adeiladu ei ddull seiliedig ar werthoedd.

44 **Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio ei strategaeth rheoli asedau hyd yma, ac mae'n wynebu penderfyniadau anodd o ran blaenoriaethu adnoddau i gefnogi moderneiddio.** Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth rheoli asedau gyffredinol sy'n sail i'w gynlluniau strategol i'w alluogi i flaenoriaethu adnoddau cyfyngedig. Mae'n wynebu gwerth £62 miliwn o waith cynnal a chadw ac, ar ddiwedd 2017-18, roedd ganddo £80 miliwn o asedau yn gweithredu y tu hwnt i'w bywyd economaidd. Hyd yma, nid oes adolygiad o'r ystâd wedi'i gynnal i helpu'r Bwrdd Iechyd i bennu sut y bydd yn blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r materion y mae'n eu hwynebu o fewn cyllid cyfalaf cyfyngedig. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu strategaeth ystadau ar gyfer Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, ond bydd angen iddo ystyried ei ystâd ysbytai i gefnogi'r gwaith o flaenoriaethu adnoddau a'i gynlluniau tymor hwy. Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth TGCh dda a phrofiad da o arloesi, ond mae capasiti mewnol a chyfyngiadau ar adnoddau yn cyflwyno heriau tymor hwy o ran cefnogi moderneiddio.

## Mae fy rhaglen waith ehangach wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau rhai trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, darbodusrwydd ac effeithiolrwydd

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol, ynghyd ag arweinyddiaeth glir a goruchwyliaeth o glystyrau, ond mae gwaith adfer ariannol a gofal eilaidd yn symud y ffocws oddi wrth gynlluniau gofal sylfaenol, ac nid yw'r perfformiad yn gryf

45 Deuthum i'r casgliad fod Strategaeth Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd yn cyfateb i'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol, er bod cyflymder y gwaith yn cael ei amharu gan flaenoriaethau eraill. Ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â rhanddeiliaid i ddatblygu ei gynlluniau. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u gosod yng nghyd-destun adfer ariannol a'r gwaith o symud gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Cwm Taf, sy'n cyflwyno her i gyflymder y gwaith.

46 Mae cynlluniau clwstwr yn adlewyrchu cynlluniau strategol ehangach, er bod clystyrau yn rhwystredig gan na allant brif ffrydio prosiectau peilot. Mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau o adnoddau yn cael eu symud yn nes at adref, ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud hi'n anodd i gyfrifo buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol, ac mae yna bryderon ynghylch y diffyg cyllid parhaus i gynnal prosiectau llwyddiannus. Mae cynaliadwyedd ymarfer yn cael ei reoli'n dda, er bod bylchau mewn data staffio yn rhwystr i gynllunio'r gweithlu a phrinder staff cymwys yn rhwystr i ddatblygu timau amlddisgyblaethol.

47 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arwain cryf a goruchwyliaeth glir o glystyrau, ond mae cyfyngiadau data yn effeithio ar waith monitro perfformiad ac mae lle i ganolbwyntio mwy ar ofal sylfaenol ar lefel Bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran darparu ei gynlluniau, ond nid yw'n perfformio'n gryf yn erbyn amryw o fesurau perfformiad allweddol, ac mae sawl her anodd yn bodoli o hyd.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith blaenorol, ond mae angen mwy o ffocws i ddatblygu camau gweithredu dyledus, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio swyddi ymgynghori

48 Mae fy ngwaith wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith archwilio blaenorol, er bod cynnydd wedi bod yn araf mewn rhai meysydd. O'r 368 o argymhellion yn yr adroddiad olrhain archwilio[1] a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2018, nodwyd bod 172 o gamau wedi'u cwblhau, bod 105 yn cael eu cyflawni ac o fewn amserlenni a bod 91 (25%) yn ddyledus. Mae mwyafrif sylweddol (78%) y camau dyledus yn ymwneud â chynllunio swyddi a chontractau ymgynghori.

49 Fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig 2018, adolygais y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion 2017. O'r 48 o argymhellion, mae 28 (58%) wedi'u rhoi ar waith ac 16 (33%) wedi'u trafod yn rhannol, gyda chamau pellach ar y gweill. Nid yw dau argymhelliad yn berthnasol mwyach oherwydd newidiadau strwythurol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae dau yn ddyledus o hyd.

## Mae fy nghanfyddiadau mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig yn dangos bod angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol reoli amryw o heriau, er bod y Gronfa yn cael rhai effeithiau cadarnhaol

50 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad traws-sector o'r Gronfa Gofal Integredig. Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn gynnar yn 2019 yn amlinellu fy nghanfyddiadau Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio eisoes wedi cyflwyno canfyddiadau lleol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dyma'r negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) Bae'r Gorllewin:

- mae'r Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa) wedi cael effaith gadarnhaol o ran uno sefydliadau ar draws Rhanbarth Bae'r Gorllewin, gyda materion diwylliannol a oedd yn arfer amharu ar waith partneriaeth yn dechrau gwella. Bydd aelodaeth yr RPB yn newid yn ystod 2019 wrth i Ben-y-bont ar Ogwr symud i ôl troed Cwm Taf. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, bydd angen i'r RPB ystyried hefyd a oes digon o gynrychiolaeth tai ac ariannol ac a yw'r

[1] Mae argymhellion Asesiad Strwythuredig 2017 yn cael eu monitor a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio trwy gynllun gwaith llywodraethu integredig y Bwrdd Iechyd, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau olrhain archwilio a drafodir ym mharagraff 46.

cydbwysedd rhwng aelodau'r bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol yn iawn. Mae yna le hefyd i egluro a gwella cysylltiadau rhwng yr RPB a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn barhaus a rheolaidd.

- mae penderfyniadau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gronfa wedi'u dirprwyo'n bennaf i is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond mae angen gwella lefel dealltwriaeth sefydliadau partner o waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin a'i is-grwpiau, gan gynnwys sut mae'r Gronfa'n cael ei defnyddio a'i heffaith.
- oherwydd natur flynyddol y Gronfa, mae'r rhanbarth yn cydnabod nad yw bob amser wedi defnyddio'r Gronfa yn strategol i ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar angen, gyda lle i gryfhau agweddau ar y gwaith o reoli prosiectau a gefnogir gan y Gronfa.
- mae yna gytundeb cyffredinol bod y Gronfa yn cefnogi'r prosiectau iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau ond, yr un fath â byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o brosiectau sy'n cael eu prif ffrydio i wasanaethau craidd. Mae rhanbarth Bae'r Gorllewin yn ceisio dangos canlyniadau yn gliriach, ond mae hyn yn cyflwyno her barhaus.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd da ar y cyfan o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

51 Ymarfer paru data bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a all fod yn dwyllodrus a gwallus. Mae'n adnodd hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ac er mwyn helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

52 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y canlyniadau o ymarfer paru data 2016 ym mis Ionawr 2017 ac, erbyn 20 Tachwedd 2017, roedd wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu 695 o'r 728 o ymarferion paru a argymhellwyd. Ni nodwyd unrhyw dwyll, a darparodd yr adolygiad o ymarferion paru data sicrwydd bod trefniadau gwrth-dwyll yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, ar 20 Tachwedd 2018, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r 33 ymarfer paru data arall, er mai'r bwriad oedd gwneud hynny ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r ymarferion sy'n ddyledus yn rhai a all gyflwyno risg uchel rhwng data'r gyflogres, taliadau credydwyr a Thŷ'r Cwmnïau, a rhwng cyfrifon banc staff a chyflenwyr.

53 Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019 ac mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cwblhau adolygiad amserol o ymarferion paru a argymhellir sy'n codi o'r ymarfer hwn.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gofal Sylfaenol | Rhagfyr 2018 |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Ionawr 2019 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Mawrth 2018 |

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Mae amryw o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Codio clinigol | Mawrth 2019 |
| Adolygiad trawsbynciol ar y Gronfa Gofal Integredig | Mawrth 2019 |
| Adolygiad dilynol o amseroedd aros | Mai 2019 |
| Adroddiad dilynol ar Wasanaethau Orthopedig | Hydref 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £416,807 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad. Fodd bynnag, byddaf yn diweddaru swyddogion os bydd y sefyllfa hon yn newid.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 4: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2018 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| Mae risg y bydd **rheolwyr yn diystyru** rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Aeth fy nhîm archwilio ati i:<br>• brofi cofnodion mewn dyddlyfrau;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, yn enwedig taliadau gofal sylfaenol; ac<br>• ni nodwyd unrhyw drafodion nad oes a wnelont â busnes arferol.<br>Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a wnaed. |
| Mae yna risg o **gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn cydnabyddiaeth refeniw**, felly mae'n cael ei drin fel risg sylweddol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu a phrofi'r ffrydiau cyllid ac incwm unigol a dderbynnir gan y Bwrdd Iechyd; ac<br>• ystyried a yw'r holl ffrydiau cyllid ac incwm wedi'u nodi. | Adolygodd fy nhîm archwilio ffrydiau incwm am gyflawnrwydd a'u profi am gywirdeb.<br>Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a wnaed. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei **ddyraniad adnoddau refeniw**. Dangosodd y sefyllfa ym mis 9 ragolwg diffyg diwedd blwyddyn o £36 miliwn. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyraniad refeniw, byddaf yn rhoi barn amodol ar reoleidd-dra a gallaf ddewis rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant ac o dan ba amgylchiadau y cododd y methiant hwnnw.<br>Mae'r pwysau ariannol sydd ar y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynyddu'r risg y gallai penderfyniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i gyflawni'r terfyn adnoddau. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog.<br>Gallaf ddewis rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant ac o dan ba amgylchiadau y cododd y methiant hwnnw. | Adolygodd fy nhîm archwilio drafodion diwedd blwyddyn, yn enwedig croniadau a thorbwyntiau. Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a wnaed.<br>Dewisais roi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant ac o dan ba amgylchiadau y cododd y methiant hwnnw. |
| Mae atebolrwydd ar gyfer costau **gofal iechyd parhaus** yn parhau i fod yn fater ariannol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Arweiniodd dyddiad terfyn 31 Gorffennaf 2014 ar gyfer cyflwyno unrhyw hawliadau am gostau gofal iechyd parhaus sy'n dyddio'n ôl i 1 Ebrill 2003 at gynnydd mawr yn nifer yr hawliadau a gofrestrwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys yn ei ddatganiadau ariannol symiau yn ymwneud â'r costau gofal iechyd parhaus ansicr hynny.<br>Mae risg nad yw'r symiau hyn wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol ac y gallai'r datganiadau ariannol gael eu cam-ddatgan. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio gwariant ar Ofal Iechyd Parhaus ac yn sicrhau'r driniaeth gyfrifyddu gywir. | Profodd fy nhîm archwilio wariant, credydwyr, darpariaethau ac atebolrwydd Gofal Iechyd Parhaus. Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a wnaed. |
| Yn 2017-18, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ailbrisio ei **dir a'i adeiladau** fel rhan o'r rhaglen ailbrisio pum mlynedd. O ystyried bod gwerth yr asedau hyn a gedwir gan y Bwrdd Iechyd yn dod i oddeutu £525 miliwn, maent yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, bydd yr ailbrisio'n defnyddio dull prisio diwygiedig.<br>Mae risg nad yw'r ailbrisio yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol ac y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camddatgan. | Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio'r broses o ailbrisio tir ac adeiladau ac yn sicrhau'r driniaeth gyfrifyddu gywir. | Adolygodd fy nhîm archwilio y broses o ailbrisio tir ac adeiladau, gan sicrhau bod y driniaeth gyfrifyddu yn y datganiadau ariannol yn gywir. Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a wnaed. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Y llynedd, cyflwynodd y Goruchaf Lys ei ddyfarniad bod rhaid i Fyrddau Iechyd yng Nghymru ailystyried eu dull o **ariannu gofal iechyd** mewn cartrefi gofal.<br>Mae trafodaethau’n parhau, ond gallai’r effaith yn y Bwrdd Iechyd fod yn berthnasol ac mae’n debygol y bydd y dull cyfrifyddu yn 2017-18 yn cynnwys amcangyfrifon a phenderfyniadau sylweddol. Felly, ystyrir ei fod yn risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn gwneud gwaith penodol ar driniaeth gyfrifyddu ariannu gofal nyrsio i sicrhau bod y gwaith cyfrifyddu ac adrodd yn gywir. | Adolygodd fy nhîm archwilio driniaeth gyfrifyddu ariannu gofal nyrsio yn y datganiadau ariannol. Ni chododd unrhyw faterion o’r gwaith a wnaed. |
| Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i amryw o **becynnau diswyddo** gyda staff yn ystod 2017-18. Mae’r materion hyn yn sensitif mewn natur ac, os na ddilynir y gweithdrefnau cywir, gallai hynny gael effaith ar fy marn ar reoleidd-dra. | Bydd fy nhîm archwilio yn gweithio gyda’r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Yna, bydd fy nhîm yn adolygu sampl o becynnau diswyddo ar ddiwedd y flwyddyn. | Bu fy nhîm archwilio yn gweithio gyda’r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn.<br>Yn 2016-17, adroddwyd fod angen i’r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu i reoli ymadawiadau uwch staff. Nid ydym wedi codi unrhyw faterion eraill yn ystod 2017-18. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru